

Y WENYNEN GYNTAF

MONA HUGHES



Y WENYNEN GYNTAF
AC YSGRIFAU ERAILL

Y WENYNEN GYNTAF

ac

YSGRIFAU ERAILL

GAN

MONA HUGHES



1934

ARGRAFFIAD CYNTAF—GORFFENNAF 1934

I'M MAM

AC I

GOFFADWRIAETH

FY NHAD

*Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion,
Gwasg Gomer, Llandysul*

Dymuna'r awdur ddiolch i Mr. J. J. Evans, M.A., Ysgol Sir, Abergwaun, am ddarllen y proflenni ac am awgrymiadau gwerthfawr. Onibai am ei anogaeth ni buasai erioed wedi meddwl am gyhoeddi'r ysgrifau hyn.

CYNNWYS

	<i>Tud.</i>
Y Wenynen Gyntaf	9
Hwyliau	13
Gwlad yr Hud	17
Y Goedwig	21
O Ffenestr Ysbyty	25
Y Ddinas Hudolus	27
Y Gwanwyn yn Llydaw	31
Swynion yr Almaen	35
Ym Mynydd-dir Belgium	39
Dinas y Clychau	43
Blodau o Erddi'r Ddinas	47
Aros i'r Doctor	51
Y Sipsiwn	55
Gwenau	59
Arwyr yr Astell Ddu	63
Mamau	67
Fy Nhad	71

Y WENYNEN GYNTAF

Do, fe'i clywais ac fe'i gwelais heddiw. Ac, O, mor bêr ei haddewid ! Ffrydiodd holl gyfoeth yr haul i mewn i'm hymwybod gyda'i sŵn melysfwyn. Nid yw un wennol yn gwneuthur haf, meddai'r bobl oeraidd, amheus sy'n gofyn praw ar bopeth ; ond yn wir, daeth un wenynen â'r haf euraidd i'm calon heddiw.

Gwyliais hi'n symud yn hamddenol o flodyn i flodyn, gan fwhwman yn hapus wrth iddi sugno melyster pob un ohonynt. Yn y murmur hwn, crwydrodd fy meddwl yn ôl i ardd hen fwthyn yr ymwelwn âg ef pan oeddwn yn blentyn, lle cedwid gwenyn di-rif.

Yr oedd yr ardd a'i blodau amryliw syml yn "wynfa'r gwenyn" ac yn baradwys i minnau. Nid oedd ond eisiau cerdded y llwybr at ddrws y tŷ, a chyfarch y ddeuddyn a drigai yno i gael cennad i dreulio prynhawn o fwynhad yng nghwmni'r blodau, a'r firwd fechan a redai trwy'r ardd, ac yn anad dim, y gwenyn.

Awn i dir hud a lledrith wrth gamu dros lwybr yr ardd honno, ac ni ddigwyddai dim i ddifwyno'r llesmajr. Pe deuai'r hen wraig i gynnig rhywbeth i dorri fy syched, nid tê neu laeth neu rywbeth cyffelyb a sawr "bob dydd" arno a gynigid imi, ond meth,—gair a'i lond o ramant yr oesoedd.

Y WENYNEN GYNTAF

Yr wyf yn sicr, pes yfwn yn ddwfn y deuai holl ddirgelion gwyll yr hen amser yn glir imi—ar draul gweld pethau o'm cwmpas yn dieithrio gan wyllted natur y meth! A bod newyn yn fy nhrechu'n rhagor na syched, cawn dafell o fara cartref ac yn enllyn arno fêl y gwenyn a glywn o'm cwmpas.

Wedi hyn, bûm yn darllen "Bywyd y Gwenyn" gan Maeterlinck, ond er hyfryted y llyfr, ni chefais yr un mwynhâd wrth ei ddarllen ag a gefais wrth wrando ar ddywediadau yr hen wr a'r hen wraig fu'n byw ymhlith y gwenyn am oes. Canfûm iddynt ddyysgu eu ffordd o fyw oddi wrth y gwenyn, ac yn ddi-ar-wybod braidd, dechreuais innau elwa ar eu doethineb syml. Gwelais mai peth da yw sugno'r melyster o fywyd fel y gwna'r gwenyn, yna'i roi'n ôl yn fêl maes o law. Yr oedd perthynas gyfrin rhwng y gwenyn a'u meistr. Pan fyddai rhywun farw yn y cartref, âi'r meistr yn syth at y cwch gwenyn i ddywedyd wrthynt, onid ê, meddai ef, ehedent i ffwrdd am byth. Dysgais fod ganddynt wrhydri hefyd. Ehêd yr haid i ffwrdd ar antur pan yw eu cartref lawnaf o gyfoeth. Daw ysbryd y cwch gwenyn i'w galw, meddir, ac ufuddhânt. Gadawant fêl Ebrill,—y mêl gwerthfawrocaf i gyd,—ar eu hôl, a mêl Mai yn aeddfedu â holl baill y blodau ynghudd ynddo.

Clywais stori yn ddiweddar a ddengys y gall ysbryd y wenynen feddiannu dyn hefyd. Cytunasai trempyn i weithio ar un o ffermydd Sir Aberteifi hyd nes deuai ei bartner heibio. Aeth popeth ymlaen yn benigamp hyd tua chanol mis Mawrth. Yna ryw brynhawn gwelodd y ffermwr y trempyn yn gwisgo'i

Y WENYNEN GYNTAF

got a "chodi cefn" fel y dywedir. Pan ofynnwyd iddo beth oedd yn bod, cyfeiriodd ei fys at wenynen gynta'r tymor a oedd yn mwmlan gerllaw, a dywedodd "Mae 'mhartner wedi dod".

Ceir aml gyfeiriad at y Wenynen mewn llên hefyd. Meddai Elfed wrth Wyn ap Nudd:

Gwyddost lle daw'r gwenyn dawnus
I grynhoi eu golud melys.

Ac ebe Eifion Wyn am Fedi fis ei serch:

O, pan gân dy glychau mêl,
Cyrchaf innau gyda'r gwenyn.

Ni ellir tlysach chwaith na chân Mr. Iorwerth Peate, "Hêd Wenynen tua'r Tyno", wedi ei gosod i'r gainc "Mae 'nhw'n dwedyd".

Eithr nid oes na llinell bardd na chân a all ail-greu'r hapusrwydd a ddaw i'm calon wrth glywed mwmlan gwenynen gyntaf y Gwanwyn. Dihuna môr o dangnefedd yn fy nghalon, ac fe'm caf fy hunan yn yr hen ardd yng ngwres haul y prynhawn, a'r awyr yn llawn persawr. Gwelaf yr hen wraig yn nesáu . . . ond gwrandewch ar y wenynen: oni phair i ardd flodeuo yn eich calon chwithau?

HWYLIAU

DEIL rhai pobl bod llawer bywyd i bob unigolyn, a bod rhyw frith atgof o'r bywydau gynt yn llithro'n ôl i'r ymwybyddiaeth ambell dro. Bu bron imi gredu yn y ddamcaniaeth hon pa ddydd, ac yn wir nid wyf yn sicr nad oes rhan ohonof yn credu ynddi hyd heddiw.

Crwydrwn hyd lannau Teifi fin nos gan syllu ar yr hen gei llwyd a'i stordai sydd bron yn adfeilion. Dechreuais feddwl am yr amserau difyr gynt pan oedd yr afon yn briffordd masnach a'i glannau'n brysur a chefnog. Dychmygwn glywed sŵn y gweithwyr wrthi'n llunio cadwyni a rhaffau a hwyliau cain yn barod i'w llanw gan wynt teg, a chlywn sŵn dirwyn yr angor hefyd a'r gân orfoleddus ar wefusau ieuenctid ar hwyllo i chwilio am ramant tu hwnt i'r moroedd. Deuai ambell air estron ar yr awel oherwydd cludai llongau'r cyfandir pell eu nwyddau i'r porthladd : lemonau ac orennau ; halen a physgod ; glo i wresogi'r corff a gwin i lonni'r ysbryd.

Deuai enwau rhai o'r llongau a'u capteniaid i'm cof, a bûm yn ymhyfrydu yn eu sŵn. Enwau Saesneg oedd ar y llongau gan mwyaf, ond ceid ambell gapten ag enw Cymraeg braf arno. Tlws oedd enwau rhai o'r llongau hefyd : *The Gift of God* ; *The Nightingale* ;

HWYLIAU

The Godspeed ; The Speedwell ; The God Save Her ; The Marigold ; The Night Raven ; The Plaindealing ; The Content. Llifent drwy fy meddwl gan fy nghyffroi i gywair rhyfedd. Teimlwn fel pe bai enwau rhai o'r capteniaid yn hen gynefin imi : Hugh Prychard ; John Wylliam ; David ap Robert ; a John Hughes Phillip Gitto. Yr oedd eraill a sw'n dieithr i'm clustiau megis Richard Golbach, Baltasar Donaghe, John Synnet a Gavin Derman. Felysed a fuasai'r ymddiddan ar gei Aberteifi'r pryd hwnnw ! Diau bod y tafarnau'n llawn miri iach a chwedlau byw am oludoedd estron. Dyna ddisgwyl a wneid i weld yr hwyliâu'n troi'n ôl i hafan glyd. Blinai llygaid llawer mam wrth geisio canfod pa long a ddychwelai. Ai'r *Plaindealing* oedd hi ? Ynteu'r *Gift of God* ? Llamai rhai calonau gan hapusrwydd wrth sylweddoli mai'r llong a ddisgwylient oedd ar gyrraedd. Ambell waith byddai calonau ieuainc ar dorri gan ofid am na ddaethai rhyw forwr tywyll golygus o Sbaenwr yn ei ôl.

Toc, dechreuais fy nheimlo fy hun yn dyheu am weld rhyw long arbennig yn hwylio heibio i dro'r afon. Sylweddolais mai'r *Content* oedd honno. Aeth y dyhead yn ing ; yr oedd fy holl gorff a'm henaidd yn gweiddi ar ba Bwerau bynnag â'm clywai i'w danfon i dir yn ddiogel. Er mai hwyrhau'n dawel a wnâi'r dydd, rhuai storm enbyd yn fy nghlustiau, a gwelwn ewyn y môr gwallgof yn torri ar greigiau diloches a'r llong yn deilchion mân ar eu dannedd. Yr oedd corff rhywun annwyl yn gorwedd wrth droed y clogwyn . . . Ond na, nid yw hynny ond breuddwyd gwyllt. Dacw'r hwyliâu'n

HWYLIAU

araf nesáu. Daeth f'anwylyd i dre ! Tonnodd llawenydd drosod, a syrthiais yn erbyn pared y cei â'm corff yn ddiffwrwyth gan ollyngdod. Deuthum allan o'm perlewyr ; nid oedd hwyl i'w chanfod, ond yn unig wynder yr elyrch yn tawel nofio tuag ataf. Nid oedd dim i'w glywed ond su'r dwfr yn cusanu grisiau'r hen gei llwyd. Teimlwn innau'n hen, hen, ac fel pe bawn wedi byw canrifoedd mewn ysbaid byr o amser. Sefais am ennyd i gasglu fy meddyliâu at ei gilydd, neu yn hytrach i ymgynefino â'm bywyd newydd. Ond tra y gorchuddid y bont a'r glannau gan y gwyll clywn atsain pell y storm, a chefais gipolwg ar hwyliâu gwynion yn llanw yn yr awel.

GWLAD YR HUD

DYWEDIR nad yw plant yn credu mwyach yn y Tylwyth Teg, ac iddynt fynd allan o ffasiwn gyda Santa Clôs. Ni wn a yw hyn yn wir; gobeithiaf nad ydyw, ond gwn un peth—fy mod i fy hunan yn credu ynddynt, ac yn arbennig yn credu yn eu gwlad. Y mae gennyf y rheswm mwyaf digonol dros gredu ynddynt, sef profiad. Clywaf rywun yn dywedyd: “Wel, wrth gwrs, mae hawl gan bob plentyn gredu yn y Tylwyth Teg, ond, yn wir, mae’n hen bryd i hon fod wedi goroesi rhyw greddo blentynnaidd felly.” Mae’n wir nad wyf bellach yn dal gwydraid o ddwfr rhyngof a’r haul ac yn disgwyl gweld y Tylwyth Teg yn dawnsio ynddo, ond fe’m caf fy hunan yn yr un cywair yn union â’r pryd hwnnw. Cynhyrchir ef gan wahanol bethau, a chaf wahanol brofiadau tra byddwyf yn ei afael, ond yr un yw’r cywair. Ni wn a allaf fynd ymhellach na hyn wrth ei ddisgrifio; efallai mai gwneuthur rhywbeth mor ffôl a hoelio glôyn byw ar fwrdd i’w ddifynio er canfod ei brydferthwch yr wyf, ond rhywfodd y mae’n rhaid imi geisio.

Rhyfedd y gwahanol bethau sy’n gyrru’r ysbryd i’r cywair hwn. Unwaith fe’i teimlais wrth ddarllen hanes M yn chwilio’r rhosynnau cudd yn “Tîr y Dyneddon”, llyfr prydferth Tegla. Dro arall, fe’m hudwyd gan awyrgylch swynol “Sipsiwn” Eifion Wyn.

Gwelais gollen pa ddydd a’r “gwyddau bach”,

GWLAD YR HUD

fel y gelwid hwy gennym pan oeddem yn blant, yn dawnsio yn yr awel. Yn agos iddi yr oedd eglwys fechan a'i mynwent, a'r beddau'n hen a diddig. Toc, dyma fi'n dawnsio i'm byd cyfrin yng nghwmni'r goeden lawen.

Ambell waith caf brofiad ohono ym murmur afonig, neu yn sibrwd y goedwig, ond nid o hyd. Af trwy'r un goedwig droeon heb ei deimlo, ac yna, efallai, mai anadlu aroglau hyfryd y pridd llaith, y mwsogl, a'r dail a wnafl, a dyna'r hen ddylanwad yn treiddio i'm hysbryd, ac ymgollaf yn ei swyn.

A minnau'n teithio fin nos mewn trên a grwydrai'n araf wrth odre'r Frenni Fawr, gwelais dân yn fflamio'n fyw mewn pant ar lethr y mynydd, heb neb yn ei wyllo. Aeth y trên ymlaen â mi i'm hen gynefin, ond arhosodd fy ysbryd yng nghwmni'r tân a dirgelion tywyll y mynydd.

Deuthum ar draws hen garreg lwyd yn sugno gwres yr haul i mewn yng ngardd un o gestyll Llydaw un tro, a bu honno'n gyfrwng imi gael hyd i'r cywair drwyddi. Daw'r cymylau a'u cysgodion ar lethrau bryn â'r gwahoddiad imi, neu dichon mai anifail bychan a'i ffordd ddigrif, ddiniwed a egyr y drws.

Y tro wedyn rhyw nodyn arbennig yn llais rhywun annwyl, neu sŵn miwsig tyner yn y pellter a'm cluda i wlad hud a lledrith. Byddaf weithiau yn treulio orig gyda hen wraig uwchben ei than coed, ac wrth edrych un funud ar ei hwyneb tywyll, byw, a'r funud nesaf yn gwylio'r binwydden yn siglo'n araf y tu allan i'r ffenestr, daw'r swyn i'm meddiannu. Neu, efallai, mai aroglau'r tân coed sy'n effeithio arnaf—ni wn.

GWLAD YR HUD

Gorau oll yw'r datguddiad a ddaw wrth wel'd gwên rhyw blentyn a'i gwallt sidanaidd, euraidd. Syllaf ar y dirgelwch mwyn sydd yng nghwsg yng nglesni ei llygaid, ac fe'n cawn ein hunain yng ngwlad y Tylwyth Teg, wedi ein huno gan ryw gydymdeimlad cudd, difynegiant.

Ambell dro ni bydd eisiau cyfrwng o gwbl. Byddaf yn darllen yn hamddenol, neu'n synfyfrio, a chodaf fy mhen i wrando, â'm hysbryd yn fyw ac yn eiddgar. Yna teimlaf y dylanwad yn llithro'n esmwyth drosof . . . ie, "Pan y myn y daw, fel yr enfys a'r glaw", ac yr un mor ddistaw. Byddaf yn newid o un ymwybod i'r llall a'm cael fy hun mewn gwlad sydd ddieithr, ac eto'n gyfarwydd. Erys Amser. Am ysbaid nid oes nac edrych yn ôl nac ymlaen, ond yn unig *bod*, ac ymfoddi yn yr hedd cyfriniol sydd yn awyrgylch i'r wlad hon. Yna y sibrydir wrth yr ysbryd holl ddirgelion annwyl dail y coed a chudd-negesaau tonnau'r môr.

Diflannodd y llen sydd rhyngof a deall symledd grisialaidd anifeiliaid a phlant bychain. Nid oes eisiau ymdrech mwy i glustfeinio, a dyfalu, a chrwydro'n anesmwyth mewn ymchwil am y gyfrinach ddeniadol sy'n osgoi fy ngafael, ac ar yr un pryd yn fy ngalw ymlaen i'w darganfod. Bellach, nid oes arnaf ond gadael i'r cyfrinion ymagor o'm blaen yn eu holl dlysni. Hapus yw'r sawl a gaiff ymweld â'r wlad hudolus hon. Unwaith yr yfir o'i phrofiadau rhyfeddol dyheu a wneir o hyd am deimlo'r hudlath ysgafn yn disgyn, a'r byd yn cilio draw. A thra bo siffrwd yn y coed a gwên yn llygaid plentyn, y mae drws agored i'w harddwch hi.

Y GOEDWIG

D^{WEN} yw dylanwad coedwig ar yr ysbryd. Unwaith yr af i bresenoldeb coed fe'm meddiennir gan ryw gywair dieithr. Defnyddiais y gair presenoldeb yn bwrpasol : credaf fod gan goed fywyd arbennig sy'n ddigon cryf i newid cywair y sawl a ddél i gyffyrddiad ag ef. Y mae Walter de la Mare yn ail-greu'r awyrgylch hwn yn benigamp yn "Y Gwrandawyr" :

" And he felt in his heart their strangeness
Their stillness answering his cry ;
While his horse moved, cropping the dark turf
Neath the starred and leafy sky."

Ni allaf well enw arno nag ysbryd y coed.

Bu'r goedwig a elwir yn " Goedmor " yn fy nenu am flynyddoedd. Teimlwn yn awyddus i'w hadnabod yn drwyadl ac eto fe'm rhwystrid gan ofn anniffiniadwy bob tro yr awn i'w ffin. Eithr un dydd penderfynais y mynnwn ddarganfod ei dirgelwch, bydded felys neu chwerw. Tywynnai'r haul pan ddisgynnais hyd y llethr tua'r goedwig. Cyferchais hen ŵr gruddgoch siriol yn cymryd hoê yn ei ardd flodeuog, a dyna ganu'n iach i'r byd cyffredin. Y Gwanwyn cynnar oedd hi ; nid oedd ond ychydig ddail ar y coed, a gallwn wel'd yr awyr lwydlas

Y GOEDWIG

trwy'r canghennau. Yr oeddwn yn falch o hynny oherwydd lle mwell yw coedwig yn nhyrmyder haf. Toc dechreuais deimlo'r dylanwad cyfrin yn llithro drosod.

Pa beth a wnawn? Ai cerdded ar hyd y ffordd a arweiniai drwy'r goedwig am ryw ddwy filltir nes dyfod allan i bentref bychan? Ynteu crwydro ymysg y coed yn ddi bwrpas gan aros i'r dirgelwch ymagor o'm blaen? Bûm yn petruso am amser. Teimlwn fel y gwnaf wrth feddwl am fywyd ambell waith, bod yr un ffordd union eglur heb atyniad ac yn or-hawdd, ond bod i'r llwybrau bychain, dolennog gyfrinach ddeniadol. Eithr rhaid magu gwroldeb i ddewis un o'r llwybrau bychain am na wyddys am ei bendraw, ac am i'r dirgelwch beri i'r galon grynu gan gyffro hanner-ofnus. Yr oeddwn ar roi'r gorau iddi a dilyn y ffordd union pan glywais dincl nant, ac i ffwrdd â mi i chwilio amdani. Fe'i cefais yn dirwyn dan graig fwsoglyd, ac wedi ymgolli yn y ddaear am ennyd, yn pistyllu allan i geunant serth rhwng y coed tal a'u bonau arian. A mi'n dringo i lawr ar ei hól, clywn ysbryd llechwraidd y coed yn aflonyddu ar y tawelwch, a thonnodd ofn yn ôl i'm calon. Ond dyna'r afonig eto a'i gwahoddiad "Dilyn-wch fi". A dyma fi ymlaen ar fy mhen, bron, dros lethrau â briallu yn tyfu hyd-ddynt, a'r heulwen yn golofnau rhwng y coed. Erbyn hyn yr oeddwn yn nyfnder y goedwig, yn gorfoleddu yn yr unigedd ac eto'n cofio am gysur y ffordd eang, braf.

Diau y buaswn wedi troi yn fy ôl onibai am fflach arian a welwn yn awr ac eilwaith yn y pellter. Dawnsiai honno o'm blaen a rhaid oedd ei chyrraedd. O'r diwedd

Y GOEDWIG

daeth y nant a minnau i ddiwedd ein gyrfa wyllt tuag i lawr. Bellach sibrydai'r afonig yn ddistaw fel petai ar gael ei dymuniad. Sylwais ar gwrwgl yn ymguddio yn yr hesg, a thoc, darfu'r coed. Fe'm cefais fy hun yn wynebu ar yr afon lefn, agored. Wrth syllu ar ei mawredd sylweddolais paham y canasai'r nant mor hapus ac mor ffyddiog wrth deithio trwy anialwch y goedwig. Daeth gollyngdod i'm hysbryd innau wrth ganfod yr hyn a brofais trwy gyfrwng y goedwig a'r nant. Diflanasai'r ofn anesboniadwy a'm llywodraethai ynghyd â'r petruster llethol, a theimlwn fod bywyd yn ymagor o'm blaen; nid y bywyd difenter sy'n glynu wrth y ffordd eang rhag ofn ymgolli wrth ddilyn y llwybrau unig eithr y bywyd ysbrydol anturiaethus a fentra eu canlyn gan wybod y daw fflach arian yr afon i arwain i eangderau'r môr.

O FFENESTR YSBYTY

[MYFYRDODAU CLAF UWCHBEN YR AFON]

DA gennyf orwedd yng ngolwg yr afon, bu'n gydymaith oes imi. Codais do o blant mewn bwthyn bach ar lannau Teifi gu. Clywaf sŵn y glaw ar y dail fin nos a'r afon yn llwyd gan lif. Dyna gamre rhyw hen bechadur mi wn—mor llechwraidd y llithra draw! Chwilio cyfle i botsio mae'r gwalch rwy'n siwr; a daw mil o atgofion imi. Aml y brwydrau fu yn y coed gerllaw am cog neu ddau—dim mwy. Ond beth wyddai'r beili am newyn noeth, ac angen un rhwng y naw?

A dyna fy machgen, fy ieuaf un—daeth ei gorff o'r afon un dydd. Gweddïais ac wylais a melltithiais, do, ond ymlaen yr âi'r hen afon o hyd. Fe'i sugnwyd i'r chwyrrnllif heb yn wybod i neb, ond yn awr, 'does wahanïaeth imi.

Breuddwydiaf am yr hen gwch du ambell dro, ac am lithro tan helyg trist. Daw'r elyrch heibio yn nhes yr haul, a syrthïaf i drym-gwsg hir. Caled diuno ar wely claf heb obaith am lywio'r cwch. Carwn fy nhafu fy hun yn ôl f'arferiad hen ar ddôl yn llawn gwartheg blith, lle llifa'r afon yn araf deg, a bywyd 'r'un fath â hi.

Pan weno'r lleuad yn dirion lawr lleinw fy nghalon â'i golau gwan. 'Rwyf yn ôl yn rhodio adfeilion hoff

O FFENESTR YSBYTY

yr hen gastell uwchben y lli. Yno sibrydodd fy nghariad i eiriau anwylaf y byd. Aem adref drwy'r goedwig fraich-ym-mraich a gobaith yn llewych i'm traed. Clywn gri'r dylluan a dolef y gwynt, a chrynai fy nghalon i. Ni wyddwn paham, ond ofnwn y byd wrth glywed yr oergri hwn. Ond i lawr odditanom wele'r afon lefn fel llinyn arian byw. Codai fy ysbryd ac i fwrdd â ni gan ddiolch am gysur fel hwn.

Mae'r gwynt diorffwys yn crwydro'r hesg—oes 'na storm ar dd'od o'r môr? Tybed ddaw John yn ôl mewn pryd? Clywch gri'r gwyllanod yn d'od i dir—dyna arwydd o storom gref. Ond mae'n rhaid 'mod i'n colli—'does waeth imi am y storom hon sy'n d'od. Fe dorrodd y storom fu'n drech na John ers llawer blwyddyn faith. Aeth y cwch yn chwilfriw ar greigiau llym: cwsge fy ngŵr ym mreichiau'r môr. A gwn o'r diwedd pam y crynwn i, wrth glywed y gwddihw. Bu hiraeth yn hen gynefin imi am flynyddoedd dibendraw, ond yn awr daeth henaint i newid lle, a'm diffwytho yn enaid a chorff. Peth rhyfedd yw methu galaru mwy, na theimlo llawenydd chwaith. Rhyw droi a throsi o ddydd i ddydd a chofio'r hen amser gynt; ond arall yw'r person a welaf yn byw fy mywyd i.

Mi garwn fod allan ynghanol y storm—blinais ar lesgedd a phoen. Rhyw ddydd daw galwad yr afon fawr—af allan i'w chanlyn hi. Heibio i'r hen gastell a than y bont lwyd ac allan i'r moroedd maith. Daw Nyrs at fy ngwely gan wenu'n drist "Rhen garan, daeth terfyn oes." Ond pa waeth fydd gen i—byddaf ar fy nhaith—tu hwnt i'r hen Afon Ddu!

Y DDINAS HUDOLUS

PARIS! Dihuno yn y bore ac arogl'n ddwfn o'r aroglau arbennig a berthyn iddi—rhyw felyster a dreiddia i bobman; clywed sŵn crwth, a rhedeg dros y llawr coed i edrych i lawr i'r cwrw (â thai o bobtu iddo a drws mawr derw a arwain allan i'r stryd) a thafu *sou* i'r chwaraecwr; coffi mewn ffiol, a thorthau bychain cras, a chyllell finio i'w hollti, ac yna allan â ni!

Benywaidd iawn yw Paris; mae pob sŵn yn ysgafn, sŵn clychau'r eglwysi, a hyd yn oed sŵn cyrn y moduron—mor wahanol i daranu trwm cerbydau Llundain. Ysgafnder yw cyweirnod y ddinas, a braid yr ofnaf anturio ar ddisgrifio ychydig arni rhag i'w cheinder ddiplannu rhwng fy nwylo. Ie, benywaidd yw Paris a chanddi lawer cywair, fel pob merch. Mae un ohonynt yn fywiog iawn ac yn ysgafn-galon. Dyma gywair y siopau gwydh, y plasau ysblennydd, a'r opera ddi-aill (ac O! dyna orfoleddu mewn môr o fwsig persain wrth wrando ar y *Valkyrie* yn yr opera, a theimlo'r ysbryd yn esgyn o dôn i dôn nes ymgolli mewn pŵl lewyg o'r bron).

Llonnir yr ysbryd wrth gerdded yr ystrydoedd coediog heirdd; nid oes brydferthach fynedfa yn y byd, mi gredaf, na'r *Avenue Champs Elysées* a arwain at yr

Arc de Triomphe, lle y gorwedd Milwr Anadnabyddus Ffrainc, a lle y llysg tân na ddiffydd byth fel arwydd o gariad anniffoddadwy'r famwlad tuag at ei glewion. Cewch yr un gwychter yn Amgueddfa fawreddog y Louvre, a fu unwaith yn blas. Yno cewch wel'd rhai o brif drysorau'r byd, yn ddarluniau ac yn gerfluniau. Cewch yr ymdeimlad hwn eilwaith yn Versailles, a'i neuaddau eang.

Daw ymweld â Versailles â chywair arall i'r ymwybyddiaeth. Fe gryn y galon wrth gofio amser cyffrous y Chwyldro. Yno y dywedodd Marie Antoinette wrth y bobl newynog a weddiat am fara. "Os nad oes gennych fara, bwyteuoch deisen".

Yn y *Place de la Révolution* (*Place de la Concorde* yn awr) a'r *Place de la Carrousel* y chwaraewyd Drama'r Chwyldro ar ei heithaf. Yno yr eisteddai gwŷr a gwragedd (a'r gwragedd yn gweu i basio'r amser) i wyllo dienyddio cannoedd o'u cyd-ddynion. Oni chlywch eu crochlefain a'u chwerthin coeglyd yn atsain ac yn marw yn y gwynt? À BAS LES ARISTOS! VIVE LA REPUBLIQUE!

Erbyn hyn bydd y galon yn chwilio am noddfa ac yn dyheu am falm tawelwch. Ond a ydyw Paris fyth yn dangnefeddus? Os croesir i lan chwith Seine, ceir aml gongl â thynnerwch lond yr awyrgylch. Yn Eglwys S. Sulpice y'i cefais gryfaf. Yno yn y cwrt o flaen yr eglwys gellir treulio orig i wyllo'r colomennod dof, gannoedd ohonynt, gan orffwys y llygaid wrth syllu ar eu llwydni tawel, a'r glust wrth wrando si-si eu hadenydd yn esgyn a disgyn.

Wedyn crwydro i mewn ac eistedd yn llwyd-olau'r hen eglwys ac yfed yn ddwfn o'r heddwoch sydd yno, a gwylio'r hen wreigan yn gosod ei basged i lawr a gweddio, mor naturiol a phe cymerai hoê gartref. Wedyn gellir teithio tua Seine, a throï ac ail-droi'r hen lyfrau ar y stondinau ar ei glannau, a thynnu sgwrs hamddenol â'r llyfrwerthwr. Ar ynys yn Seine y saif *Notre Dame*, mam eglwys Paris; yno y ceir ffenestri lliw gogoneddus i syllu arnynt, ac amser i synfyfrio ar nofel Victor Hugo, "*Notre Dame*" nes dychmygu gweld Quasimodo'n nesáu.

Afon ddengar yw Seine. Ni fedd ar wychter llachar Rhein, nac urddas Tafwys, ond y mae'n anhraethol brydferth—y goleuadau lliwus, llon, a'r pontydd telaid. Mae hithau'r afon yn newid cywair hefyd. Yn llygaid goleuni gellir myn'd mewn bâd arni, a chymysgu â thrigolion Paris, a mawr yr hwyl. Liw nos, arall yr argraff. Teimlir mai gwahodd trueiniaid yw ei gwaith—y rhai na fyn y ddinas mohonynt mwy. Eithr prydferth yw o hyd, oherwydd cwsg a gynnig.

Beth arall sydd i'w wneuthur ym Mharis? Y gwir yw, gellir gwneuthur a fynir heb i neb sylwi; a dyna un o ragorfreintiau gwyliau yno.

Ond pe dilynech fi, tebyg y treuliech beth amser yn eistedd y tu allan i un o gafés y *Quartier Latin*, yn gwylio bywyd efrydwy'r Paris. Yno, ac nid ym Montmartre, y gwelwch wir fywyd y ddinas. Erbyn hyn rhyw "antur fasnachol" i rwydo dieithriaid yw'r *Moulin Rouge* a'i gyffelyb. Deuech hefyd i erddi Tuileries i fwydo adar y tô, ac oddiyno i Ardd y Luxem-

Y DDINAS HUDOLUS

bourg i wyllo'r plant yn chwarae yn ymyl y llyn. Pan glywech sŵn y carpiwr yn gweiddi "*habits chifons*" aech i ddal pen llinyn ag ef, oherwydd yr un oslef yn union sydd ganddo a goslef yr "hwyl" Gymreig.

Ac, yn sicr, llithrech i mewn unwaith yn rhagor i Eglwys S. Sulpice i adael i ysbryd deniadol Paris lifo drosoch.

Ie, oriog yw hi, a thra hudolus.

Y GWANWYN YN LLYDAW

EUTHUM i Lydaw yn y Gwanwyn, pan ddyhea'r ysbryd am grwydro a phrofi swyn lleoedd newydd a phobl ddieithr. Ni ellid gwell gwlad na Llydaw i chwilio'r swyn hwnnw; gwlad hud a lledrith yw.

I ferch o Gymraes, yn arbennig, y mae ganddi atyniad rhyfeddol. Gwresoga'r galon tuagati oherwydd ei pherthynas agos â Chymru, a dihuna chwylfrydedd a diddordeb am iddi wahaniaethu mewn llawer ffordd. Côr o athrawon Cymreig oeddym yn teithio o le i le a chanu yn y capeli bychain Protestannaidd, gan geisio golwg ar fywyd gwerin Llydaw; ac mor ddiddorol y cipdrem hwnnw!

Ym Morlaix cawsom groeso heb ei ail, ac amheuthun oedd hynny wedi pedair awr a'r hugain o deithio. Ofnaf inni ganu fel pererinion blin yr anial yn y cyfarfod hwnnw, eithr wedi'r cwrdd cawsom brofiad o'r berthynas agos sy rhyngom a'r Llydawiaid. Ar unwaith bu cyfeillachu rhyngom fel pe baem aelodau o deulu hirlwasgaredig. Llifa'r ymdeimlad hwn yn hyfryd ddwfn yn ein hymwybyddiaeth, a dyna ni'n adfywhau, ac yn ceisio arfer ein Ffrangeg a'n Cymraeg a'n hychydig Lydaweg, blith draphlith! Mor eiddgar oedd y Llydawiaid i glywed am Gymru a'i harferion, a chaent hwyl fawr ar y gwaith o chwilio geiriau tebyg yn y ddwy iaith.

Mewn lle bach anghysbell o'r enw Huelgoat, a ninnau mewn tŷ cwrdd â'i furiau'n wyngalch tumewn a thuallan, buom yn canu emyn bob-yn-ail bennill a'r Llydawiaid ar y dôn "Llydaw". Gwelaf hwy'n awr—yr hen wragedd yn eu *coifs* gwynion a'u "siolau bach" yn siglo'n araf gyda'r dôn, a'r henwyr â byd o brofiad yn eu hwynebau tawel, rhychiog. Canent yn "fwrnaidd" iawn, fel y dywedir yn Sir Benfro, ac ychydig yn gras, fel plant heb ddysgu rheoli eu lleisiau, a chaem argraff o hir orthrwm a thristwch wrth eu gwranddo.

Rhyfedd fel y ceir yr ymdeimlad o henaint yn Llydaw—yn ei phobl ac yn ei hawyrgylch. Braidd y gwelech neb yn ganol oed, gan gynted y goddiweddir ieuencid gan henaint yno. Mae cryfder a thawelwch y tir yn yr hen wynebau, ac awgrym o aros trwm am ddeffroad, yn union fel y bydd y ddaear yn disgwyl am Wanwyn. Gwelais hen gestyll hefyd yn breuddwydio tan heulwen y prynhawn a chysgodion yr hwyr yn distaw lusgo'n nes. Ymdaenai ysbryd y canrifoedd dros y wlad a daeth llanw o dangnefedd hyfryd i'm calon.

Wedi'r cyfan, nid yw'r Llydawr yn meddu ar yr un math ar ddifrifoldeb â'r Cymro. Pa hen wraig a eisteddai ar bont ar brynhawn Sul yng Nghymru wledig gan gicio'n ôl a blaen â'i chloes? Ac yna'n cymryd y diddordeb mwyaf yn ein hymdrechion i dynnu llun ohoni! Ni welais yn fy myw ddim hapusach na mwy diofal na'r hen wraig honno. A cheir Ffair a Phardwn, Dawns a Rhialtwch, eithr rhyw ysbryd Sadyrnaidd sy'n cerdded y wlad, er hynny.

Rhaid cofio mai troi yr oeddym ymysg dosbarth

o'r bobl sy'n gwrthryfela yn erbyn eu hamgylchedd; ac fe dalodd hynny'n gyfoethog inni, oherwydd, bydded eu hachos gyfiawn neu beidio, mae'r lleiafrif sy'n gwrthryfela yn unrhyw wlad yn meddwl drostynt eu hunain, yn arfer gwroldeb ac yn aberthu'n aml iawn. Yn wir, cefais ambell olwg ar aberth ddistaw: buom yn canu wrth wely angau hen genhadwr Llydewig—Monsieur David. Torrai ei galon am na ellid talu olynedd iddo. Nid oedd ganddo arian i'w gadael, ond trôdd ddwy ystafell yn ei dŷ yn gapel bychan gan obeithio y troai rhywun heibio ambell dro i bregethu.

Y mae Llydaw'n byw yn agos i Natur, gan lynu wrth ei thraddodiadau a'i harferion—dyna pahan y mae wynebau ei hen bobl yn gain ac yn gryf. A dyna pahan y dywedaf innau y bydd iddi dorri cadwyni anwybodaeth. Fel y daeth cenhadon o St. Pol de Léon i Lanilltyd Fawr ganriföedd yn ôl, fe gyhoedda Llydaw neges ei gwerin i'r byd eto. Mae'n tawel ddisgwyl am y wawr. Ac fe dyr!

SWYNION YR ALMAEN

PAN euthum i'r Almaen dyna'r tro cyntaf imi deithio mewn gwlad na wyddwn ond ychydig iawn o'i hiaith. Braidd yn ofnus y teimlai fy nghydymaith a minnau wrth feddwl am y daith, ond gan y credem nad oedd yn werth teithio fel praidd o ddefaid dan ofal arweinydd, i ffwrdd â ni ar antur. Yn wir, cafwyd gwell hwyl ar y daith honno nag ar daith yn Ffrainc, lle na'n trafferthid gan ddiffygion iaith.

Ein bwriad oedd teithio i Heidelberg, gan ymweled â lleoedd ar ein hynt. Fe'n synnwyd gan wychter Cologne; ei heglwys gadeiriol fawreddog, y goleuo disglair oedd ar y ddinas, ac yn anad dim, Rhein ddigymar. Pobl o gorff cydnerth, cyhyrog oedd y dinaswyr, a chawsom argraff o rwysg a bywiogrwydd ymhob man.

Aethom i fyd arall pan gyraeddasom Bonn, cartref Beethoven, a gyfansoddodd fiwsig a swyna'r byd tra bo clust i wrando gan ddyn. Troesom i mewn i'w gartref, a synfyfrio ymysg hen ddodrefn ac offerynnau cerdd nes dychmygu ohonom deimlo ysbryd Beethoven yn nesáu. Tybed i'w ysbryd grwydro yno gan geisio dal adlais y miwsig anfarwol a greodd ac nas clywodd, am mai byddar oedd?

Wedi cyrraedd Heidelberg cyfarfuom â gwahanol

SWYNION YR ALMAEN

deip o Almaenwyr—rhaf byr, tywyll, cyffrous oeddynt, yn debyg iawn i Gymry, o ran golwg. Buom yn aros gyda theulu prifathro un o ysgolion canolradd Heidelberg, a chawsom gipolwg ar fywyd ysgol a choleg yno. Dinas dlos yw Heidelberg, a'i chastell yn hongian uwchben yr afon, a'r brynau o gwmpas yn goediog i gyd. Braidd y gellir dirnad (heb ei gweld) am goedwig fel honno, yn ymestyn heb agoriad na phen draw. Gellir cerdded am filltiroedd ynddi, oni thrymheir yr ysbryd gan y gwyll a'r tawelwch. Pan rybuddiwyd ni i beidio â chrwydro o'r prif heolydd rhag ein goddiweddyd gan garnladron, teimlem ein bod wedi dychwelyd i'r Canol Oesoedd!

Cerddasom i bentrefi bychain yn nyfnder gwlad, yn anhygoel o gyntefig, a phrif heol rhaf ohonynt â chwter yn rhedeg trwy ei chanol. Yn un o'r pentrefi anodd oedd cerdded am y llanwyd y lle gan y coed a dorasid erbyn y gaeaf—yn goed tân ac yn ddefnydd teganau.

Buom mewn tref fechan o'r enw Dilsberg, a dyna'r lle mwyaf hudolus a welais erioed. Teithiech hyd lannau Neckar dawel, ac yn y pellter gwelech dref ar gopa bryn crwn, a mur o'i hamgylch; lliwiwyd y tai yn las, yn binc, ac yn felyn, ac ymgodai tŵr yr eglwys o'u canol. Cerdddech i fyny ati trwy berllannau llawnion, ac anodd oedd cofio nad tref yn un o chwedlau Grimm ydoedd.

Gwelsom chwarae "*Julius Caesar*" yng Nghastell Heidelberg, yn yr awyr agored. Mor darawiadol oedd golygfeydd y ddrama â'r castell yn gefndir iddynt, a

SWYNION YR ALMAEN

phrydferthed y goleuo yn erbyn cynfas y nos dywyll! Ni chlywid sŵn, ond sibrawd yr afon islaw. Gwaith difrifol i'r Almaenwr yw perfformiad un o ddramâu Shakespeare. Ni siaradai neb o'r gynulleidfa; ni welais neb yn bwyta melysion; nid oedd neb yn smocio—yr oedd pawb yn ymddwyn fel pe'n addoli duw hoff!

Ar ein ffordd adref arosasom yn Frankfurt gyda gwraig a wna gryn lawer o waith cymdeithasol, a chafwyd cyfle i wel'd rhaf o'r tai newydd a adeiladwyd gan y Llywodraeth i'r gweithwyr. Gwelsom mai'r un yw'r natur ddynol mewn flats o'r math diweddaraf; cedwir rhaf ohonynt yn ddestlus ac yn lân, a'u gerddi yn flodeuog, hardd, ac am eraill gwelir mai ail-greu slymiau a wna eu preswylwyr.

Dychwelasom i Gologne mewn bad a phrofasom swyn-gyfaredd Rhein. Llifa'r hen afon yn llydan ac yn gryf, gwelir cestyll a cheyrydd yn gwgu arno o'i glannau. Ond pa waeth ganddi am hynny? Nac am y morwyr a hudwyd i ddinistr gan fôr-forwynion y Lorelei. Nid yw'r bywyd a deithia arni yn aflonyddu arni ddim. Llithro ymlaen o ganrif i ganrif y mae mewn rhamant a hud. Yn y trê'n o Gologne i Ostend dysgasom mai peryglus o beth yw gwybod ychydig o unrhyw iaith. Tynasom lenni'r ffenestri a hanner cysgu. Dyma hen swyddog barfog i mewn, a chasglasom oddiwrth ei araith gyffrous mai eglurhad a geisiai paham y tynnwyd y llenni. Dysgasem ddau air tebyg i'w gilydd o ran sŵn, un a arferai ein lletywraig wrth ei phlentyn dwyflwydd, sef "schafe" (oen bach) a'r llall "schlafen" (cysgu). A dyma fy nghyfaill yn ceisio egluro mai cysgu oedd

SWYNNION YR ALMAEN

ein bwriad, ac meddai'n siriol, "Schafe, schafe!" A dyna gloi'r drws yn syth ac ail bregeth wyllt o'r tuallan. Mor falch oeddem i glywed llais swyddog o Ffrancwr ar y ffiniau yn Aix, a medru esbonio mai camgymeriad oedd y cwbl, ac nid awydd i gellwair â pherson mor bwysig a difrifol â'r Almaenwr hwnnw. Ond er gwaethaf yr holl helyntion, fe anturiwn y daith eto!

YM MYNYDD-DIR BELGIUM

ANAML y meddylir am Felfgium fel gwlad fynyddig. Er dyfal ddarllen ohonom lyfrau daeareg yn yr ysgol, gadewir ni â'r syniad mai gwastatir undonog yw. Rhywdro, fodd bynnag, gwawriodd arnaf bod rhanbarth o'r wlad yn fynydd-dir anghysbell, ac i ffwrdd â mi ar antur i'w grwydro. Wrth deithio'r gwastadeddau o Ostend i Frussels anodd oedd amgyffred y ffaith bod mynyddoedd yn fy aros. Y mae i'r gwastatir ei swyn, wrth gwrs : perllannau llawnion, caeau llafur ffrwythlon, a ffyrdd yn dirwyn rhwng coed irlas. Eithr i Gymraes—y mynyddoedd!

Treuliais ddeuddydd ynghanol miri Brussels—y ddinas honno sydd fel eiliw gwan o Baris imi, ond mai metelaidd yr awyrgylch a geir ynddi—a pharod oeddwn i ymgynabod â thawelwch unwaith yn rhagor. Ac ni'm siomwyd.

Yn y mynyddoedd hyn, a wisgir gan goed di-rif, teyrnasa Tawelwch fel brenhines. Bron na ellwch ei deimlo fel personoliaeth yn adweithio arnoch. Yma y gallwn fwynhau peth sydd hoff gennyf—gwrando ar dawelwch. Ni wnâi ambell grawc aderyn neu swm ambell frigyn yn torri dan droed un o greaduriaid bach y goedwig ond dyfnhau'r tawelwch a olchai'n ôl yn donnau cysurlon.

YM MYNYDD-DIR BELGIUM

A minnau'n eistedd yn ddisymud, efallai y deuai cwningen fach brysus neu wiwer sionc i sbïo arnaf â'i llygaid bywiog. Pan deneuai'r coed ychydig, gwelwn rhwng y coed cŷafol a'r aeron coch siriol, amaethwr yn aredig ei dir ac ychen ganddo wrth yr aradr, a chroeswn ato i dynnu sgwrs. Hawdd gwneuthur hynny, oherwydd ni thrafferthir y teithiwr gan gloddiau ym Melgium; gellwch deithio am filltiroedd lawer heb eich atal gan yr un. Neu efallai mai hen ŵr pendefigaidd yr olwg arno a ddeuai hyd yr un llwybrau, a chart bychan ganddo a dau gi anferth yn ei dynnu. Ni welais nemor well enghraifft o wrthgyferbyniad rhwng yr hen a'r newydd nag un o'r ceirt yma (a'r hen frawd wrth ei ben, bid siwr) yn sefyll o dan hysbysiad am foduron Henry Ford.

O godiad haul hyd y machlud gwelir y gwerinwr yn trin y tir heb "godi cefn" ond pan glywir cloch yr Angelus yn galw i weddi. Yna gesyd ei raw i lawr, a phlyg ei ben mewn gweddi, ac ail ymafael yn ei waith. Bydd y gwragedd wrthi mor ddyfal a'r gwŷr. Gwelwch y ddau yn penlinio ar y ddaear yn ceisio gwasgu cynhaliaeth brin allan ohoni. Cyn agosed â hynny yw'r ieuo rhwng dyn a'r tir ym Melgium. Teimlwn y trigai llafur cenedlaethau cyfain yn eu hosgo hwy. Bùm yn aros yn eu cartrefi, ac anghredadwy cyn lleied sydd rhyngddynt a newyn. Caled y bywyd, oherwydd diffirwyth y tir a chyntefig yr offerynnau, ac yn wir, cyntefig a syml iawn eu bywyd hwythau. Cefais hwyl fawr ar bresenoldeb ieir ac ambell fochyn cyfeillgar yn eu eeginau. Eithr y maent yn fodlon ar eu ffawd—neu efallai mai heb sylweddoli dim amgen y maent.

YM MYNYDD-DIR BELGIUM

Bùm yn Abaty Orval. Dyma abaty hynaf y Sisters-iaid ym Melgium. Yno hefyd y ceir tawelwch di-dor. Gwelir myneich wrth orchwylion o bob math—pobi, gwneuthur crochanau pridd, ac atgyweirio adfeilion gogoneddus yr hen abaty, a adeiladwyd yn 1132—ac ni chlywir gair o'u genau. Bùm am ysbaidd yn y clwysty yn gwrando ar si—si adenydd y colomennod dof—ac yna—a chefais ofn fy llais fy hun—mentrais siarad â'r mynach oedd yn borthor, a bu ymgom ddifyr rhyngom. Clywais iddo adnabod Lord Kitchener, a rhoddodd hanes eu cyfeillach imi. Mynach barfog, tawel yr osgo oedd, ond dywedai rhyw dân mud yn ei lygaid dyfnlas mai arall a fuasai ei fywyd ers talm.

Bùm wedyn yng Nghastell Bouillon, a'i furiau anhygoel o drwchus, yn edrych i lawr ar yr afon Semois ymhell odditanom; a chyn yr hwyr anturiwyd mewn cwch ar ei dyfroedd bas. Oddiyno i ogofâu Han, a rhynnu corff ac enaid am ddwy awr wrth eu tramwyo. Ogofâu mor ysblennydd ydynt fel y gellid rhoi Eglwys Gadeiriol Brussels yn un ohonynt. Croesais llyn mawr tanddaearol mewn cwch, a chyn dyfod at oleuni dydd bu bron imi gredu mai tua thir Annwn y moriwn!

Amheuthun wedi hyn oedd dringo mynydd a syllu i lawr ar yr afon Meuse yn ei holl ogoniant, yn ffurfio hanner-cylch llydan wrth ddirwyn ar ei thaith. Oddi yno teithiais i La Roche, dinas hynod brydferth ar gopa bryn, a ddisgynnai'n glogwyn coediog, serth i'r afon Ourthe. Bùm ar lan yr afon honno yn gwyllo hen wragedd siaradus yn golchi dillad ynddi, a bùm innau yn rhoi help llaw iddynt yn y diwedd.

YM MYNYDD-DIR BELGIUM

Anodd, wedi teithio ymysg harddwch dilychwin yr Ardennes, oedd troi'n ôl a gweld dinasoedd a ddifethwyd yn y Rhyfel Mawr, megis Louvain, a'i mil prydferthion. Trist oedd swyn hyd yn oed gerddi hudolus Palas Esgob Liège. Bûm yn Ninant; ailadeiladwyd y dref a'r gaer wedi'r rhyfel. Ni allwn lai nag edmygu gwroldeb y genedl fach a gododd dref newydd o ludw'r hen dref, ond athroniaeth Humpty Dumpty a'm meddiannai—difethwyd yr hyn na ellir byth mo'i adfer.

Wrth imi sefyll yn un o fynwentydd bychain y milwyr daeth "gwaedd y bechgyn lond y gwynt," chwedl Hedd Wyn, a thorrodd ton ar ôl ton o dristwch drosof. Teimlwn nad myfi a ddylai fod yno, ond rhyw fam dlawd, hiraethus, o Gymru.

DINAS Y CLYCHAU

ELENI sylweddolais un o'm breuddwydion anwylaf: bûm ym Mruges. Ers blynyddoedd buasai ei swyn hen yn Fecca i'm dyheadau, ond ni ddeuai'r cyfle i droi'r breuddwydion yn realiti—neu yn siom.

Pan ddisgynnais yn yr ogof a elwir yn orsaf gan ei thrigolion, crynai fy nghalon gan ofn mai siom a'm disgwyliai. Amlled y siomedigaethau a geir pan welir mangreoedd a fu'n hir yn wrthrychau dyhead! I ffwrdd â mi drwy heolydd cul, ac i mewn i westy a adeiladwyd yn y bedwaredd ganrif a'r ddeg. Wrth adael fy nghlud yn yr ystafell cefais olwg ar gamlas islaw'r ffenestr a thai anarferol eu ffurf a'u lliw yn ymylu arni. Yr oedd y cipolwg hwnnw'n ddigon i'm gyrru allan ar ffrwst i ddechrau cyfeillachu â'r ddinas. Disgynnai mantell yr hwyr, ac ar unwaith dyna dawelu ar fy awydd gwyllt i wel'd popeth ar unwaith. Llithrodd tawelwch i'm hysbryd a pharatôdd fi i dderbyn pa brofiad bynnag a gynigid.

O grwydro deuthum at y sgwâr, ac yno gwelais y clochty sydd yn ganolbwynt i'r ddinas. Tŵr llwydwyn ydyw, a'r noson honno yr oedd awyr ddyfnlas y nos yn gefndir iddo. Deëllais fod yno gyngerdd ac mai'r peth iawn oedd eistedd y tu allan i un o'r cafés a chael coffi a gwrando. Yr oedd cannoedd o bobl yn y sgwâr yn cerdded blith draphlith, ac uchel yr hwyl a gaent. Prin y meddyliwn y cawn glywed llawer o fwsig;

DINAS Y CLYCHAU

ond dyma seiniau cyntaf y clychau persain, a thoc darfu pob ystŵr a phawb yn gwrando. Credais mai'r miwsig hwn oedd y mwyaf atyniadol a glywswn erioed, eithr tynerodd y gorfoledd mewn tipyn, a chlywid llais gogoneddus yn canu gyda'r clychau. Deuai atom yn donnau ysgafn, a gyffyrddai'n dirion â'r galon.

Pan ddarfu'r gân dihunais o bêrlewyg, ac wrth ail-ymafael yn y byd o'm hamgylch gwelais wraig ifanc yn distaw symud o fwrdd i fwrdd yn y café, gan arwain ei gŵr dall, ac yntau'n ceisio gwerthu darluniau o Fruges. Mor drist eu hwynebau a chymaint yr atgasedd ynddynt am y rhaid oedd arnynt i gardota fel y trois yn drist am gartref heb aros am ragor o'r miwsig. Ar hyd y ffordd clywn seiniau pell y clychau, ond o flaen fy llygaid gwelwn ddau wyneb di-obaith.

Gan ddyfnded swyngyfaredd Bruges ni allaf gofio yn eu trefn ddigwyddiadau'r amser y bûm yno. Gwn i mi grwydro o fan i fan gan yfed argraffiadau sydd erbyn hyn yn un crwnswth a bair lawenydd diderfyn i mi. Gwrandewais ar y clychau wedi'r tro hwnnw, ac unwaith canodd côr o ben y clochty. Ond, O! fel yr hiraethwn am glywed côr o Gymry yno—rhagorai filwaith ar hwn! Treuliais fwy nag un ysbaid yn Eglwys Notre Dame, yn ymyl cerflun Michael Angelo o'r Fam a'r Plentyn. Annisgrifiadwy ei berffeithrwydd. Ni ellwch ond syllu, a syllu, gan ddiolch am geinder llaw'r meistr. Eisteddwn wedyn ar ryw hen bont yn gwylio'r heulwen yn dawnsio ar y dwfr ac ar y cerrig llwyd, ac efallai y byddai arlunydd yn paentio yno, a chawn weld ei waith yn cynhyddu.

DINAS Y CLYCHAU

Tua chwech o'r gloch byddwn yn sicr o'm cael fy hunan yn ymyl y *Béguinage* (elusendai), lle y trig rhai o'r hen wragedd anwylaf a welais erioed. Y mae gan bob un ohonynt dŷ bychan, yn wynebu ar lawnt sgwâr fawr, a choed afalau'n tyfu yno. Y mae ganddynt eu heglwys fach, a chewch weled yr hen liniau anystwyth yn plygu yno, ac odid na bydd arnoch chwithau chwant plygu glin hefyd. Oddi yno efallai mai myn'd mewn cwch a wnawn dros gamlas ar ôl camlas, a'r helyg yn cusanu'r dwfr, a'r blodau amryliw yn y gerddi bychain yn gwenu arnaf. Yna glanio ac allan â mi trwy un o bedwar porth hanesiol y ddinas i gerdded wrth gamlas lydan a gwylio'r llongau yn symud yn araf tua'r môr, heibio i boplys braf ac ambell felin-wynt. Neu efallai mai troi i mewn i'r eglwys gadeiriol a wnawn i edrych ar y gwydr lliw gogoneddus sydd yno, ac ymlaen at yr amgueddfa a gweld enghreifftiau prydferth o ymylwe. Ond gyda'r nos bwriwn yn ôl tua'r gwesty tawel i wyllo'r dwfr yn lliw heibio'r ffenestr a'r cysgodion yn dyfnhau. Bûm oriau lawer yn synfyfrio felly. Ac, yn wir, cyn deall ysbryd Bruges rhaid yw aros iddi sibrwdd ei chyfrinach wrthych—nid gwiw rhuthro i'w darganfod. Eithr o'i deall, mawr ei swyn a sicr y gafael a gaiff arnoch.

Y funud hon clywaf sŵn y clychau yn fy nenu—i rodio yn y gwyll tyner hyd lannau'r dyfroedd llonydd, ac i syllu unwaith yn rhagor ar y Fam a'r Plentyn yn nhawelwch *Notre Dame*.

Clywch yr atsain, "Yn ôl! Yn ôl!"

BLODAU O ERDDI'R DDINAS

Bûm yn ymdroi ymysg dynion heddiw yng ngerddi Kensington gan sylwi ar y lleddf a'r llawen, yr hen a'r ieuainc, bawb ohonynt yn tyrru i lygad haul.

Câi cyfoethog a thlawd yr un breintiau ; sedd i eistedd arni, prydferthwch natur i syllu arno, a gwres i ymhyfrydu ynddo. Draw dacw hen wr yn eistedd a cholomennod dof yn tyrru o'i gwmpas, ac un hyd yn oed yn mentro disgyn ar ei law, gan daweled ei osgo. Yn nes ymlaen wele enethig mewn ffrog lân a basged fach ganddi yn bwydo adar y tô, a hwythau mor hy a'r colomennod, a hithau, 'run fechan, mor ddiniwed â'r adar.

Y mae swyn rhyfedd i mi yn y plantos sy'n tyrru drwy'r gerddi. Bûm yn eu gwyllo o gwmpas cerflun Peter Pan. Dyma un o bleserau anwylaf Llundain. Heddiw daeth nifer o blant o'r tair i'r chwech oed i chwarae wrth draed Peter Pan, a gwelais ferch fach garpiog, siriol, yn ceisio cael gan fachgennyn parchus yr olwg ei helpu i ryddhau un o lygod Pedr. Da fod yr anifeiliaid hoffus sydd wrth ei draed wedi eu cerfio mewn copr, onide ofnaf mai amddifad a fuasai Pedr ers llawer dydd ! Y peth cyntaf a wna pob plentyn a welais ger y cerflun yw ceisio cael yr anifeiliaid i ffwrdd. Ond yno yr arhosant i roi pleser i oes ar ôl oes o blant, hen ac ieuainc.

BLODAU O ERDDI'R DDINAS

Wrth grwydro ymhellach deuthum ar draws rhagor o blant yn lansio llong ar ôl llong ar ddyfroedd y Llyn Crwn. Dyma ateb i ofyniad Huw Puw: "B'le mae'r llongau bach fu gynt yn nosio'r cefnfor?" Ba waeth os papur eich cwch a charpiog eich crys? Ni lamodd calon Columbus fel y llama calonnau'r rhain pan gyrraidd un o'r llongau yma ben ei thaith.

Bu bron imi gynnig hwylio cwch fy hunan, ond gwelais rywun yn bugeilio defaid—ie, yng nghanol Llundain, ac i ffwrdd â mi i edrych arni—gwraig lygatddu, syth, o tua thrigain oed yn gofalu am y defaid a bawr dan y coed tewfrig. Bûm yn cyfeillachu â Tweedie, y ci defaid deallus, ac wedi iddo flino ar fy siarad a throi ymaith at ei waith yn sych-syber, euthum ymlaen gan basio dau hen grwydryn yn gorwedd yn eu hyd ac yn mwynhau bara a chaws.

Ond toc dyma olygfa drist o'm blaen; dyn parchus â holl anobaith y diwaith yn ei wedd yn eistedd ar fainc gan ddal ychydig flychau o fatsus yn un llaw, tra daliai ei wraig fethedig â'r fraich arall. Cysgai hithau'n drwm, gyda holl ddiofalwch blinder anniodd-efol yn ei hosgo; syllai yntau draw a llygaid na welent ddim ond anhawster noeth y dyfodol.

Cerddais ymlaen â'm calon yn drwm a gwelais rywbeth a dynnai ddeigryn o'r llygad a gwên i'r gwefusau yr un pryd. Ar fainc arall gorweddaï hen wreigan yn swp, ac yn cysgu ei chalon hi. Yr oedd cot ddu amdani a phlu fel plu ceiliog du am y gwddf, fel na welech ddim ond trwyn ar y plu yma. Edrychai'r got a'i chynnwys yn annirnadwy o hen a chefais yr un

BLODAU O ERDDI'R DDINAS

argraff ag a geir pan welir aderyn heb ei bluo mewn siop—rhywbeth truenus ynddo, ac eto rhyw olwg chwerthinllyd a bair wên. Bu awydd ynof ei chyffwrdd, i gael ychydig o'i hanes—ond, na, cysged, yr hen garan, a melys fo'i breuddwydion! Heno pan glywir llais croch y gwylidydd yn gweiddi'r "All Out" bydd yn rhaid iddi hi a channoedd eraill fyn'd ar eu hynt. I b'le? Pwy wŷr?

AROS I'R DOCTOR

EISTEDD mewn rhes o bobl ddiflas, yn edrych o gwmpas yn dawedog a dienaidd, neu droi tudalennau hen gyfnodolion heb sylwi ar eu cynnwys—ai dyna eich profiad chwi o aros eich tro i weld y doctor? Wel, nid dyna fy mhrofiad i. Gallaf hyd yn oed ddywedyd fy mod yn croesawu cyfle i dreulio hannerawr yn y clwb sydd yn mynychu ystafell aros y doctor. Unwaith y cewch dderbyniad i'r gymdeithas ddiddorol hon cewch gyfle i sylwi ar y natur ddynol yn ei holl ffraethineb, a chewch hwyl hefyd ar wylïo'r trueiniaid hynny sy'n cymryd pethau yn or-ddifrifol.

Nid oes raid i chwi ymdristáu; nid ydych chwi na'ch cwmni ar fin marw, neu ni fuasech yn y sefyllfa hapus o allu treulio amser i aros eich tro, nac i draethu manylion eich dolur. Ond, os coeliwch yr hanner o'r hyn a sibrydir o'ch cwmpas, byddwch yn sicr o gredu bod rhai o'ch cymdogion wedi do'd i'r pwynt pan ddarogenir amdanynt, gan siglo'r pen yn brudd, "Does dim gwella iddo, druan!" Ond dewch chi, yrhai uchafeu cwyn fydd yn holliach gyntaf. Y mae "hen stagers" yma yn y gelfyddyd o ennyn cydymdeimlad!

Y mae'n gymdeithas â rheolau caeth ganddi. Un o'r pwysicaf yw eich bod i "gymryd eich tro". Nid oes wahaniaeth os chwi yw'r dyn prysuraf yn y

AROS I'R DOCTOR

dref, a'r dyn o'ch blaen â chydol y dydd ganddo, rhaid i chwi gadw at y rheol. Rhyw ymdeimlad cynhenid o degwch yw'r achos, oherwydd gwelir aml ddadleuwr selog dros y ddeddf yn rhoi ei gyfle i fyny yn wirfoddol—ond act o garedigrwydd yw hynny. Ac y mae'r "hen law" yn hynod ddrwgdybus o unrhyw ymdrech i osgoi'r ddeddf.

Clywir swm yn y feddygfa—damwain wedi d'od i mewn. "Nage," medd hen frawd drwg ei dymer, "rhyw hen Jacs gwell na'i gilydd wedi mynd o'n blaen ni". "Nage, nage," ebe rhywun arall, "wnâi'r doctor ddim felly". "Pwy ddwedodd ddim am y doctor?" yw'r ateb chwyrn. "'Does neb yn uwch ei gân amdano na fi."

Ar y funud daw'r doctor i mewn i gynnau'r tân trydan. "Hy," dyma anffyddiwr arall wrthi cyn gynted ag y try ei gefn, "bydd dŵr yn y moddion i dalu am y tân yma". A dyma'r storm yn torri. Pawb ar ei draed ôl yn amddiffyn y doctor, a'r anffyddiwr yn esgymun mewn eiliad.

Digrif iawn yw rhai o'r haeriadau a glywir: "Y mae'n fam a thad imi," medd plentyn amddifad o tua thrigain-a-deg oed. "Mae'n gywir fel 'roedd hi yn Damascus 'slawer dydd," ebr un arall. Dyna ferch ieuanc yn aflonyddu tipyn, a hen ŵr ar ei gwar hi mewn amrantiad, "Flinaist ti aros i'r doctor? Dim ond un aros sydd waeth na hwnnw—aros i'r cariad!" Trwy drugaredd Rhagluniaeth egyr drws y cysegr santeiddiolaf ac i mewn â'r eneth swil.

A dyma fy nhro i—ië, fy nhro cyfreithlon—ac af i

AROS I'R DOCTOR

mewn â'm ffydd yn gryf, oherwydd clywaf hen wraig annwyl yn y cornel pellaf yn dywedyd: "A dwy ddôs gymrodd hi cyn gwella'n iawn."

Clwb iawn yw clwb aros i'r doctor.

Y SIPSIWN

BUAN y dihunir diddordeb pan siaredir am yr hîl hon ; rhaid bod rhyw gynneddf yng nghalon pob dyn sy'n cyfateb i'w swyn. Erbyn heddiw diflannu o'r tir y maent, ac yn rhoi lle i greaduriaid truenus sy'n cardota am fod yn rhaid arnynt. Cewch yr argraff mai o'i fodd y treulia'r Sipsi ei fywyd yn ddiofal ac ansicr, a'i fod yn ei fwynhau i'r fath raddau fel y temtir chwi i'w efelychu.

Cofiaf imi, pan oeddwn yn blentyn, roi ychydig ddi-llad at ei gilydd gan feddwl eu dilyn. Yr oedd gweld eu fen ar feidr lân, a'r mwg yn esgyn yn araf-deg trwy'r coed i'r oddi wrth dân yr eisteddai bagad o Sipsiwn o'i gwmpas, yn ddigon i'm hudo atynt. A mwy fyth a fyddai'r swyn pe digwyddwn fwrw heibio fin nos a gwel'd fflamau'r tân yn goleuo wynebaw tywyll, a'r llygaid yn dawnsio a'r gwefusau'n gwenu'n ddi-reidus. Ond yn y cysgodion draw odid na welwn hen wrach yn syllu'n dreiddgar arnaf—a dyna'i sodli hi am fy einioes !

Y mae'r atyniad sydd gan y genedl hon imi yn gryfach na swyn un genedl ddieithr arall. Heblaw traddodiadau gwahanol, arferion cywrain, ac iaith estron, y mae ganddi gyfriniaeth a hoen hudolus. Hen genedl yw yn gwreiddio yn y canrifoedd maith ac yn

Y SIPSIWN

glynu wrth ei bywyd arbennig yn gyndyn, fel y gwna'r Iddewon.

Yn George Borrow y mae gan y Sipsiwn ddehonglwr penigamp. O ddarllen "*Lavengro*", "*Romany Rye*", "*Romano Lavo Lil*", a "*Gipsies in Spain*", daw mwynhâd digymysg. Yno ceir holl ramant y genedl a'i hanes dyrys. Tebig iddynt ddyfod i Brydain tua 1480 o Ffrainc, ac yma yr arosasant yn lladrata, yn dywedyd ffortiwn, ac yn byw ar draul ein harafwch ni. Eithr nid oes angen ein cyfyngu ein hunain i lenyddiaeth Saesneg, er ei hyfryted. Oni chanodd ein beirdd ni yn odidog iddynt? Ni cheir cywirach na phrydferthach darlun na "Sipsiwn" Eifion Wyn a'i gwpled perffaith:

Crwydro am oes lle y mynno ei hun,
A marw lle mynno Duw!

A phan ddarllenoch "Sipsi" Crwys braidd na chlywch yn ei fywiogrwydd sŵn gitâr a gweld merch lygatfyw, groen-dywyll yn dawnsio ar y glaswellt; a dawnsio a wna'ch calon chwithau, nes dawnsio allan o'r byd arferol, difrifol ac i mewn i fyd o ysgafnder cyfriniol.

"Nid oes ganddo ddewis fro," medd Eifion Wyn, ond, er hynny, gofala grwydro trwy'r porfeydd gwelltog. Cerddais un dydd trwy gwm—un o gymoedd harddaf Cymru. Wrth y nant barablus, brysur yr oedd fen. Gwelwn hi, â'r awyr las a'r eithin blodeuog yn gefndir iddi, a thwrr o blant yn eistedd ar ei grisiau yn chwarae gyda chi anferth. Yn syth dyma ferch ieuanc allan o'r fen, gan gynnig dywedyd fy ffortiwn os croeswn ei

Y SIPSIWN

llaw ag arian. Ie, pobl graff am fusnes ydynt—er eu holl ramant yn ein tyb ni. Busnes ydyw dywedyd ffortiwn, ac, wrth gwrs, wrth werthu a phrynu ceffylau maent heb eu hail. Dywedir iddynt feddu ar y ddawn o gyfnewid golwg ceffyl nes i'w berthynas agosaf fethu â'i adnabod! A choeliaf iddynt gael hwyl fawr wrth ein twyllo a chwerthin yn iach am ein pennau. Diau, diddorol o beth yw crwydro'n hamddenol o le i le gan ddibynnu ar gyfrwystra cynhenid i gael lluniaeth. Rhaid bod pleser mawr i'w gael wrth anturio felly, ac wrth fyw ar grediniaeth pobl.

O! mi garwn weld Sipsi heno, a'i thlysni, ei gwisg liwus, ei llestri, ac, yn anad dim, ei ffordd gelfydd o'm denu. Ond blinaf edrych—nid oes neb ar yr heol ond pobl barchus fel fi!

GWENAU

A GYFARFUOCH erioed â chymaint o gydnabod mewn prynhawn fel y teimlech fod eich wyneb wedi diffwrwytho gan amled y gwenau a ddisgwylid gennych? Tebyg i chwithau fel finnau ddioddef felly pan oeddech ieuanc iawn, a heb ddatblygu'r gallu i'ch amddiffyn eich hunan rhag adweithio'n ormodol i fân ofynion cymdeithas. Gwell gennyf y wên goeglyd na'r wên ffurfiol wag : y mae'r wên ysgornllyd yn ddi dwyll beth bynnag. Pan welwyf wên ragrithiol, ludiog byddaf yn meddwl am bryf copyn yn gwahodd gwybedyn i mewn i'r wê, ac mai myfi yw'r gwybedyn ! Rhowch imi'r cuchiau mwyaf ofnadwy yn rhagor na'r wên o'r math a gysylltir ag *Uriah Heep*.

Eithr nid oes a fynnwyf yma â'r gwenau annymunol hyn, ond yn hytrach â'r gwenau sydd brydferth y tu hwnt i ddim arall yn y byd. Goleuwyd tywyll-leoedd aml druan gan wên : dyma un o'r pethau cyntaf i'n siriolu yn y byd a'r olaf i'n cysuro.

Pair ambell wên i chwi ddyfalu pa ddirgelwch atyniadol a orwedd y tu ôl iddi : a lwyddodd neb erioed i ddehongli ystyr gwên gyfriniol y *Mona Lisa* ? Suddodd llawer gwên llai enwog na hon i mewn i ymwybyddiaeth y sawl a'i gwelodd ac yno yr erys yn eich herio i ddarganfod y gyfrinach gu. Gwelwch wên arall â dim ond

GWENAU

direidi diniwed ynddi. Pa ddydd deuthum allan o gaeau i lôn fach werdd a dyna lle y gwelais fachgennyn hoenus yn marchocáu ceffyl gwyn. Pan garlamodd heibio trôdd ataf a gwenodd yn ddireidus. Teimlwn fel pe bai brenin y Tylwyth Teg wedi rhuthro heibio a'm bendithio ! Bùm yn hapus trwy gydol y dydd.

Y mae gan famau ystôr o wenau prydferth. Trysora pawb y wên honno y rhedai adref o'r ysgol i'w gwel'd ! Y mae gwên weithiau yn gymaint arwydd o ddewrder ag yw gwrhydri ar faes brwydr. Gwelais fam yn gwenu cyn hyn uwch gwely angau ei phlentyn bach, heb unwaith adael i'r ing dorri trwy'r wên gysurlawn. Dro arall gwelais wên fuddugoliaethus ar wyneb sipsi ifanc mewn tloty. Edrychai ar ei baban â threm dyner, falch. Ni welais fam erioed a gwên ddisgleiriach ganddi. Unwaith gwelais faban yn gwenu am y tro cyntaf erioed. Tra plygwn uwchben ei grud agorodd ei lygaid ac aeth cyffro ysgafn ysgafn dros yr wyneb bychan fel awelig yn tonni dros laswellt. " Dyna'i wên gyntaf " meddai'r fam. Ni welais ddim perffeithiach yn fy myw. Ni pheidiwn pe dechreuwn sôn am wenau plant—y mae gennyf drysorfa ohonynt yn fy nghalon. Gwenau direidus rai ohonynt, rhai'n fwyn, eraill yn chwilfrydig, ond pob un ohonynt yn flyddiog a hoenus.

Hoffus yw gwenau henaint hefyd. Ystyriol ydynt, a thawel, fel gwlad a ysgubwyd gan storm ; crys olion y dymestl ond tywynna'r haul dros y difrod—gwelir ambell wên ar wyneb rhywun hen â holl ogoniant y machlud ynddo. Canfyddir mewn aml wên serenog i'w pherchennog gymodi â bywyd, a cheir y neges

GWENAU

dderbyniol " Dewch ymlaen ; 'does dim i'w ofni ". Braf o beth yw gallu gwenu ar ddiwedd oes, a pheth i'w edmygu hefyd oherwydd gwelwn gyda'r Athro W. J. Gruffydd " wae y blinder dan y wên ".

Y wên dlysaf o'r cwbl yw'r wên sy'n datguddio mewn fflach yr hyn y dyhea'r ysbryd ei fynegi. Anystwyth a thlawd yw geiriau i fynegi pethau dyfnaf bywyd, ond hêd y wên i'r galon gyda sicrwydd na ellir mohono gyda'r geiriau ceinaf. Diflanna tristwch a drwgdybiaeth, yr agendor rhwng cenedl a chenedl, rhwng hen ac ifanc yng ngwres y wên hon. Fe'i cofir pan fyddo geiriau'n ddiystyr, ac eiliw gwan yw o'r wên y disgwyl pob dyn ei gwel'd ar wyneb y Crist.

Peth annwyl yw gwên.

ARWYR YR ASTELL DDU

Y MAE cannoedd o ysgolfeistri yn y tir heb sôn am eu henw na channol i'w gwaith. Llafuriant o flwyddyn i flwyddyn gan wynebu byd o anawsterau yn ddirwgnach.

Ewch i mewn i ysgol fach yng nghanol gwlad : ystafelloedd bychain, anghyfleus ; dodrefn hen ffasiwn ; ychydig iawn o ddefnyddiau at waith ; is-athrawon ieuainc, heb orffen dysgu eu crefft, ac mor ychydig o'r rheiny, nes bod yn rhaid i un ohonynt ddysgu dau ddosbarth.

Dyna i chwi'r adnoddau sydd gan ŵr o ysgolfeistr yn y wlad i'w helpu i weithio allan ei iachawdwriaeth—neu i'w yrru i ganol pydew o ddifaterwch a marweiddra. Mae rhai o'r frawdoliaeth yn araf farw yn y pydew hwn, a'r unig beth a'u ceidw a'u pennau uwch y dŵr yw gobaith am bensiwn ! Ond y mae'r mwyafrif mawr yn byw, ac yn byw'n llawn.

Os am achub ei enaid rhaid i'r ysgolfeistr ym mherfedd gwlad osod ei ddiwylliant a'i athrylith, ei graffter, a'i sioncrwydd ysbryd i wyllo'r mur rhag i undonedd a syrthni oresgyn y gaer. Yn anad dim, rhaid iddo lynu wrth ei synnwyr digrifwch, onide bydd y frwydr wedi ei cholli.

Gorfodir iddo ymlwybro heb gyfleusterau i adnewyddu ffynhonnau gwybodaeth trwy ddilyn darlithiau. Ni chyferfydd â'i gyd-athrawon ond yn anfynych iawn, a rhaid yw byw heb ryw lawer o werthfawrogiad na chlod. Wyneba'r ffaith na ddaw cydymdeimlad i'w ran, oherwydd i'w gymdogion fethu â deall yn hytrach nag oherwydd eu calon-galedwch.

Ni bu neb erioed â llygad craffach am athrylith mewn plentyn na hwn. Pa rai o feibion disglair Cymru nad ydynt ddyledus i'w hysgolfeistr gartref yn y wlad am help i roddi troed ar lwybr enwogrwydd? Braidd yr un! Eithr dioddefa'r cymwynaswr wrth gollu ohono ei ddisgyblion gorau, a gwêl eraill yn mynd i mewn i'w lafur.

Mae'n wir y caiff hapusrwydd wrth ddilyn gyrfa'r rhain, ond, O! rhyw bleser hiraethus yw. Neu, efallai, ni bydd amgylchiadau'r plentyn yn caniatáu iddo fyned rhagddo—a thristwch digymysg fydd hynny. Mor ddiwyd y bydd wrth geisio gwastatáu'r anghyfiawnder; bydd wrthi'n dyfal lenwi'r bwlch mewn oriau hamdden.

Gofynnir iddo fod yn bopeth i bawb. Rhaid iddo gymryd lle'r Ysgol Sir ym mywyd llanc â'i lygad ar y weinidogaeth, ac ysgrifennu llythyrau dros hen bererin na thorrodd air ar bapur erioed.

Disgwylir iddo feddu ar ddoniau amrywiol. Un o'r doniau mwyaf derbynol yw'r gallu i baratoi cawl blasus yn ginio i'r plant a ddaw bellter ffordd i'r ysgol. A chlywais gan un o'r gwŷr amryddawn hyn mai'r ffordd iawn i dorri cennin yw eu torri â siswrn!

Yr ysgolfeistr, hefyd, fydd yn gefn i'r gweinidog, neu'r offeiriad. Pwy sydd i redeg cwmni drama a chadeirio mewn cyfarfodydd, a phwy sydd i "holi'r ysgol"? Ond efô, bid siŵr! Rhaid iddo fyw bywyd ei gymdogaeth, a hynny'n drylwyr.

Gofynnir iddo'i drwytho'i hun yn ei harferion, deall ansawdd ei meddwl, ac agor ei galon i'w hangen. I wneuthur hyn rhaid peidio â gresynu am a freuddwydiwyd ac na ddaeth i ben.

Mae rhai o raddedigion y Brifysgol ym mysg yr ysgolfeistri hyn. Croeshoeliodd y rhain, ac eraill o dalentau disglair, lawer breuddwyd annwyl iawn. Eithr daeth realiti mwy sylweddol i fod yn rhinwedd y croeshoelio hwnnw. Fe ymweâ pob ysgolfeistr gwledig, a gwerth ei halen o wreiddioldeb ganddo, i ymwybyddiaeth gwerin; mae yn trin tir meddwl ei ardal mor ofalus ag y gwnaeth amaethwr ei ddaear erioed; dysgodd y gamp fawr o weithio yn y dirgel, a thrwy hynny gwna'i ran i greu Cymru newydd a fydd deilwng o'r hen draddodiad.

Pob hwyl i wŷr yr Atell Ddu!

M A M A U

O'R crud i'r bedd mae gan y gair mam ystyr a apelia at reddfau dynoliaeth. Dyma'r gair cyntaf a syrthia tros wefus y plentyn, ac yn aml dyna sibrydiad olaf yr hen.

Y mae'r un peth yn wir am ymwybyddiaeth cenedl, a cheir enghraifft o hynny yn yr arferiad o alw'r wlad yn Fam-wlad. Ceir pwyslais dyfnach ar y syniad hwn mewn rhai gwledydd na'i gilydd: yn Ffrainc, y fam sy'n holl-bwysig, ac nid yw'r tad ond rhyw gysgod gwan o "Madame".

Eithr dyma un o destunau ffrwythlonaf celfyddyd ymhob gwlad fel ei gilydd. Ceir darluniau gwych, cerfluniau gogoneddus, a barddoniaeth swynol sydd ddyledus am ysbrydoliaeth i hoffter greddfól dyn o'r fam. Nid yw llên Cymru ar ôl yn yr agwedd hon ar farddoniaeth. Meddylier, am eiliad, am benillion cryf, cain, Glan Padarn, "Cân y Fam i'w Phlentyn", a'r cwpled perffaith:

Huna ym mynwes dy fam—
Tarian dy fywyd yw hi.

Diau bod "Hwiangerdd Sul y Blodau" yn tonni trwy'r meddwl, a "Suo-Gân" brydferth Robert Bryan

MAMAU

hefyd. Yn eglwysi'r Cyfandir braidd na phwysleisir dioddefiadau Mair yn drymach nag eiddo'r Iesu, ac iddi hi y bydd gweddïau'r ffyddlon yn esgyn gan amlaf. Eithr yn ddiweddar daeth awydd modern i ddadan-soddi'r delfryd hwn, ac i nodi mai amrywiol yw mamau fel y gweddill o'r hil ddynol—rhai'n dda, rhai'n ddrwg, a'r mwyafrif yn weddol iawn!

Cydnabyddir eu meddiannu gan reddf arbennig, ond meddir, y mae i'r anifail gyffelyb reddf. Dibynna gwerth y reddf ar y modd y'i defnyddir. Erbyn heddiw daeth Meddyleg a'i goleuni treiddgar ar y mater, a cheir safbwynt newydd i edrych ar rinweddau mamau. O dan yr hen oruchwyliaeth y syniad oedd mai'r fam orau oedd honno a garai ei phlant ddyfnaf ac a aberthai fwyaf trostynt. Ond yn awr clywir sôn am famau sy'n or-hoff o'u plant—y meibion yn enwedig—ac sydd yn rheoli eu bywyd i'r fath raddau fel nad oes ganddynt hunan-ymddiried o gwbl. A tharanu wna'r doethion hyn mai andwyol yw triniaeth felly i blentyn.

Gwelais erthygl pa ddydd yn dal mai'r bechgyn a wna'r gwŷr gorau yw'r rheiny y bu farw eu mamau yn eu mabolaeth. Pwysleisir y ffaith y dylid rhoi siawns i blentyn ddatblygu ei bersonoliaeth ac i deimlo mai iddo ef ei hun y perthyn yn gyntaf. Dywedir bod hyn yn gofyn am gryn hunan-ymwadiad ar ran y fam hoff, ac am ddeall anarferol. Gwelaf synnwyr y gosodiad yn iawn, ond, yn wir i chwi, hen-ffasiwn yw fy safbwynt ar y mater, er gwaethaf pob dadl. Ac y mae gennyf "adnod i brofi'r pwnc", sydd â mwy o argyhoeddiad

MAMAU

ynddi imi na holl lyfrau Meddyleg y flwyddyn—a'm profiad o famau'r wlad o'm cwmpas yw hwnnw.

Caf yr anrhydedd o'u cyfarfod ambell dro—"dônt i'r dre" ar fore Sadwrn, a galwant heibio pan fydd rhywbeth a'u poena ynghylch eu plant yn yr ysgol. Caf syndod wrth siarad â hwy. Adwaen un o'm disgyblion, efallai, fel bachgen glân, trwsiadus, a chaf yr argraff bod byd go lew ar ei rieni, ac mai o gartref cysurus y danfonir ef i'r ysgol. Fel arall y mae yn aml! Pa ddydd bùm yn gwrandio cwyn mam na wyddai sut i gael gafael ar yr ychydig sylltau i letya ei bachgen yn y dref dros yr wythnos. Yr oedd ganddi saith o blant, ac ni weithiasai ei gŵr ers blwyddyn-a-hanner oherwydd afiechyd. Oni bai am yr help a gai gan ei dau blentyn hynaf, a wasanaethai ar ffermydd, ni byddai'r un gobaith i'w gadw yn yr ysgol. "Ond", meddai, â grym penderfyniad yn ei llais, "mae gan William ysgoloriaeth, ac mae'n gyntaf yn ei ddosbarth, a rhaid treio'i gadw ymlaen". Gwn am ddegau o hanesion cyffelyb—hanesion sy'n dyfnhau ffydd ac yn diuno edmygedd ynof. A hyn sydd arbennig deilwng o wrogaeth yn y mamau hyn—ni chewch yr un ohonynt i awgrymu ei bod yn aberthu, nac yn gwneuthur dim clodfawr wrth gynhilo ar angenrheidiau bywyd, a gweithio hyd at greithiau er mwyn rhoi ei gyfle i blentyn talentog. Eraill sy'n manteisio ar eu dygn waith ac yn siarad yn sentimental amdano er mwyn "gwneud strôc" ar lwyfan, a hwythau'r mamau sy'n rhoi i Gymru ei meibion a'i merched athrylithgar.

Y mae'r traddodiad a achubodd enaid Cymru ar

MAMAU

hyd y canrifoedd eto'n fyw. Y traddodiad hwn a roddodd wŷr fel Syr O. M. Edwards, Ap Fychan, a Syr Henry Jones i Gymru ; a thraddodiad yw a ddywed wrthym mai enaid ac ysbryd, addysg a chrefydd, yw'r pethau pwysicaf mewn bywyd. A hwy, famau Cymru, sy'n ei feithrin mewn aml gur.

Eithr mawr fydd eu gwobr, canys gorseddir hwy yng nghalonau eu plant ac yn ymwybyddiaeth y genedl.

FY NHAD

Fy nghof cyntaf amdano yw rhoi fy llaw yn ei law ef, a'r ymdeimlad o ddiogelwch a lifai i'm calon wrth imi wneuthur hynny. Cofiaf hefyd am yr aros iddo ddychwelyd o daith bregethu, a'r neidio gwyllt i roi dwy fraich am ei wddf. Deuai i mewn â'i wyneb yn wenau i gyd, a'i lygaid tywyll byw yn pefrio gan ddireidi. Newidiai awyrgylch y cartref heb iddo ddywedyd dim : teimlwn fod cadernid a llawenydd yn llanw'r lle. A chredaf mai'r awyrgylch a greai oedd y peth gwerthfawrocaf a gâi'r claf a'r trallodus ganddo. Clusfeinient am swm ei lais. Nid oedd wahaniaeth at bwy na phryd y gelwid ef : nid oedd nac Iddew na Groegwr, dydd na nos iddo, ond yn unig angen y sawl a alwai arno. Nid oedd dim yn rhy ymarferol iddo i'w wneuthur ; ai ati i gynnu tân i hen wraig ar ddychwelyd o'r ysbyty, neu i eillio dyn a chaner ar ei wyneb. Ychydig a glywem gartref am y pethau hyn : wedi ei farw cawsom yr hanes gan rai o'r bobl y glynodd wrthynt yn eu cyni.

Er mor huodl ei barabl yn gyhoeddus, tawel oedd yn ei gartref. Ganddo ef y dysgais ystyr maddeuant : yr oedd ei ysbryd yn llawn ohono. Ni chawn fychanu neb, a rhoddaï daw ar "straeon" â gair. Un o'r pethau hawddgaraf ynddo imi oedd ei duedd i weld cywion

y frân yn wyn. Ni fynnai weld drwg yn neb ond, a bwrw iddo ddigwydd darganfod neb yn troseddu, fflamiai'n wyllt ac nid gwiw i'r troseddwr aros yn ei wyddfod, yn enwedig os gwnaethai ei ddrygioni "dan gochl crefydd," chwedl fy nhad. Diflannai ei swildod naturiol a "thorwyd y llechau" heb ail-ystyried. Buan yr âi'r cynnwrf heibio, a syrthiai yntau i gywair trist. A minnau eto'n ieuanc iawn, teimlwn awydd angerddol ambell waith i'w amddiffyn : rhag beth, ni wyddwn, oherwydd cryf o gorff a meddwl oedd. Gwelaf yn awr mai teimlo yr oeddwn, a heb ddeall hynny, fesur y croeshoelio oedd ar ei ysbryd tyner wrth ymdrin â byd caled ysglyfaethus.

Hawdd oedd ganddo gydymdeimlo â'i bobl. Yn wir, cyd-ddioddefai â hwy. Ar lan y bedd y caent ef agosaf atynt o bob achlysur, am mai yno y galwent egluraf arno am gysur. Ond gwelwn ôl y dioddef arno am ddyddiau. Annileadwy oedd effaith y Rhyfel Mawr arno. Dwywaith a thair mewn dydd gorfu iddo "ddwyedyd y gwaethaf" wrth rieni, nes o'r diwedd âi'n frwydr rhyngddo ag ef ei hun cyn y medrai wneuthur hynny. Cafodd ei salwch mawr cyntaf wedi i'r Rhyfel dorri allan, a llosgodd y cwbl oedd yn ôl iddo o'i nerth cyn ei ddiwedd. Nid edifar hynny ganddo, ac erbyn hyn nid edifar gennyf finnau chwaith. Rhaid oedd i ddyn o'i dymheredd ef ymdafu yn gorff ac enaid i wasanaeth ei gyd-ddyn. Ni buasai'r ychydig flynydd-oedd a enillai trwy gynilo'r nerth yn ddim ond carchar iddo : rhaid oedd byw fel fflam olau.

Yn ystod ei gystudd ni chwynai am ddim ond am ei anallu i bregethu. Caech yr un ateb o hyd pan

ofynnech sut yr oedd, "Yn well, diolch", a'r hen wên yn gwawrio'n grynedig. Hanner awr cyn iddo farw yr oedd yn holi am ddwy ferch fach wrth eu henwau : nis gwelsai ers dwy flynedd. Mor annwyl â hynny oedd plant iddo. Nid oedd marw'n fwy na newid cywair : o'r lleddf i'r llon. "A brave man" meddai'r Ysgotyn o ddoctor wrth ei wely angau.

Dirif fy atgofion amdano : ynghanol bagad o gyfeillion uchel eu spri, ac yntau'r mwyaf ohonynt ; yn blentyn gyda'r plant, yn adrodd helyntion bore oes wrthynt ; wrthi'n llunio pregeth â'i bapur ar ei lin, wrth y tân yn y gegin ; yn codi hwyl mewn Cyfeillach a mynd ati i bregethu fel pe bai ar faes Cymanfa ; yn cario dyn cloff i mewn i'r fedyddfa ; y llais arian yn tonni ar yr awel wrth bregethu yn yr awyr agored ; yn anwylo ei bobl ar Sul Cymundeb â'r geiriau melys, "Fy mhobl, fy mhobl" ; yn ysgubo cynulleidfa â'i angerdd. Y mae'r atgofion hyn yn eiddo i mi ac yn eiddo i lu o'i gyfeillion. Eithr myfi yn unig a adwaen fy nhad. Bellach y mae'r bedd rhyngof âg ef, a mynych y goddi-weddir fi gan dristwch. Ond daw llaw gref wresog i afael yn fy llaw i . . . Diflanna hiraeth.